

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Egwyddorion y Ddeddf

- **Pobl** - rhoi'r unigolyn yn y canol drwy roi llais cryfach iddo a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau y mae'n eu derbyn
- **Llesiant** - cefnogi pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain, gan adeiladu ar amgylchiadau, gallu, rhwydweithiau a chymunedau person
- **Ymyrraeth gynnar** - mwy o wasanaethau ataliol, yn cefnogi pobl cyn i'w hanghenion droi'n argyfyngus
- **Cydweithio** - mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng yr holl bartion dan sylw

Hyrwyddo llesiant

Mae'n rhaid i staff

- Hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth
- Ceisio deall beth yw dymuniadau a theimladau'r person
- Parchu urddas pobl
- Ystyried eu diwylliant, eu credoau a nodweddion eraill



Sut bydd y Ddeddf yn effeithio ar staff ym maes gofal cymdeithasol?

Cefnogi Pobl

Drwy

- Godi ymwybyddiaeth o'r wybodaeth a'r cyngor a fydd ar gael i bawb
- Hysbysu gofalwyr o'u hawliau cyfartal i gael eu hasesu am gymorth
- Cefnogi eu hannibyniaeth
- Eu helpu i wneud eu penderfyniadau eu hunain



Cydweithio

- Fel rhan o'r tîm i gefnogi person, byddwch yn gweithio gydag unigolion a'u teuluoedd, yn ogystal â sefydliadau eraill, i nodi atebion ac ymateb i angen
- Yn gyffredinol, bydd Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cydweithio'n agos i sicrhau bod iechyd a gofal cymdeithasol yn integreiddio'n well

Diogelu

- Dylech geisio sicrhau eich bod yn parhau i roi blaenoriaeth i ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed
- Os oes gennych achos rhesymol i gredu bod oedolyn neu blentyn mewn perygl, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r awdurdod lleol

